# Canllaw ar Danciau Olew Gwresogi Domestig




**Paratowyd y canllaw hwn gan Weithgor Halogi Tir Cymru**

## CYNNWYS


| | Tudalen |
|---|---|
| Cyflwyniad | 2 |
| Risgiau i Iechyd | 3 |
| Risgiau i'r Amgylchedd | 4 |
| Risgiau i Eiddo | 4 |
| Atal Gollyngiad | 5 |
| 1. Cynnal a Chadw | 5 |
| 2. Diogelwch | 5 |
| 3. Monitro | 5 |
| 4. Gweithredu | 6 |
| 5. Mesuryddion | 6 |
| 6. Lleoliad | 7 |
| 7. Pecynnau Gollyngiadau | 7 |
| Yswiriant | 8 |
| Gollyngiadau Olew – Y Gyfraith | 9 |
| Gosod Tanc Newydd a Gwaredu Hen Danc | 9 |
| Beth i'w wneud os byddwch yn dod o hyd i ollyngiad | 10 |
| Pwy i gysylltu ag ef? | 12 |
| Rhagor o Wybodaeth | 12 |
| Geirfa | 13 |

# CYFLWYNIAD

Os oes gennych chi, neu rywun rydych chi'n ei nabod, danc olew i gyflenwi gwres canolog a bwerir gan olew, gall y llyfryn hwn eich helpu i osgoi costau, anghyfleustra a risgiau i'ch iechyd a'r amgylchedd a achosir pan fydd olew'n gollwng o'r tanc storio/pibellau.

Mae'r llyfryn hwn yn esbonio'r pethau y gallwch eu gwneud i osgoi damweiniau fel gollyngiadau, a'r camau y dylid eu cymryd os bydd damwain yn digwydd.

Achosir y rhan fwyaf o ollyngiadau gan ddiffygion o ran cynnal a chadw tanciau neu bibellau.

Cânt eu hachosi hefyd gan ladradau neu pan fydd y tanc yn cael ei lenwi.

Mae olew yn wenwynig a gall achosi niwed i'ch iechyd chi ac iechyd eich teulu, planhigion, anifeiliaid, bywyd gwyllt a'r amgylchedd.

Gall olew deithio'n bell ar hyd y ddaear ac mewn dŵr a gall halogi ffynonellau dŵr daear drwy dreiddio'n ddwfn i'r ddaear. Gall dreiddio drwy bibellau dŵr a halogi dŵr yfed. Mae'n bwysig gwneud yn siŵr bod eich tanc a'r pibellau yn cael eu cynnal a'u cadw'n rheolaidd ac yn gywir, a'ch bod yn deall y goblygiadau os bydd olew'n gollwng o'ch system.

Dylai gollyngiadau gael eu trwsio heb oedi i'w stopio rhag lledaenu a gwaethygu.

Os bydd damwain yn digwydd, gall eich Cyngor lleol a Chyfoeth Naturiol Cymru[1] gynnig cyngor i chi a'ch helpu i sicrhau bod y gwaith glanhau'n cael ei wneud yn brydlon ac i'r safon briodol. Ni allant wneud y gwaith glanhau eu hunain, na thalu amdano.

Efallai na fydd cwmnïau yswiriant yn talu os yw'r gollyngiad wedi bodoli ers amser neu wedi cael ei anwybyddu. Mae'n bwysig i chi edrych am ollyngiadau o'ch tanc a'ch pibellau'n rheolaidd ac i fonitro faint o olew rydych chi'n ei ddefnyddio. Gallai cynnydd yn yr olew rydych chi'n ei ddefnyddio neu ostyngiad sydyn yn yr olew yn eich tanc olygu bod gollyngiad.

---

[1] Ar 1 Ebrill 2013 cyfunwyd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Comisiwn Coedwigaeth Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC) i Cyfoeth Naturiol Cymru. N.B. The Environment Agency remains in England.

## RISGIAU I IECHYD

Gall olew fod yn wenwynig i bobl ac anifeiliaid. Gall eich gwneud chi neu anifeiliaid yn sâl os bydd yn dod i gysylltiad â'r croen, os caiff ei lyncu drwy ei fwyta neu yfed, os caiff ei lyncu drwy ddamwain neu os byddwch yn anadlu'r mygdarthau a'r anweddau a gynhyrchir ganddo.

Plant, babanod, menywod beichiog, menywod sy'n bwydo ar y fron, pobl sâl a'r henoed sy'n wynebu'r perygl mwyaf.

Gall rhai o'r symptomau o ddod i gysylltiad ag olew fod yn ddifrifol a gallant waethygu os byddwch yn dod i gysylltiad ag olew dros gyfnodau hir. Mae'r symptomau'n cynnwys:

- Cur pen
- Cyfog a chwydu
- Dermatitis (brech ar y croen, cosi, pothelli, croen yn plicio)
- Llwnc tost
- Llygaid tost
- Pendro, teimlo'n gysglyd ac ymateb yn araf i bethau
- Poen yn y bol a dolur rhydd
- Niwed i'r arennau
- Anawsterau wrth anadlu
- Niwmonia
- Anymwybyddiaeth

Mae'r mygdarthau a'r anweddau a gynhyrchir gan olew yn wenwynig ac yn ffrwydrol pan gânt eu cymysgu ag aer.

Weithiau, mae'r lefelau o fygdarthau ac anwedd a gynhyrchir mor uchel nes ei bod yn beryglus aros yn y cartref nes bod yr olew wedi'i glirio'n gywir.

Gall olew dreiddio i'r ddaear a theithio yn bell o'r man lle cafodd ei ollwng, heb arwydd o hynny ar y wyneb.

Golyga hyn y gall olew deithio drwy'r ddaear i mewn i erddi a thir pobl, a'u gwneud yn sâl. Gall olew deithio i mewn i'r ddaear ac effeithio ar ddraeniau, sylfeini a chyflenwadau dŵr, felly mae'n bwysig iawn i chi roi gwybod am unrhyw ollyngiadau.

Mae olew'n cynnwys nifer o sylweddau gwahanol a gall rhai o'r sylweddau hynny dreiddio drwy bibellau, gan gynnwys pibellau cyflenwi dŵr a dŵr yfed. Gall hyn achosi i'r dŵr flasu ac arogleuo'n annymunol a gall fod yn risg sylweddol i iechyd. Weithiau, yr unig ateb yw gosod pibell newydd, a all achosi tarfu a bod yn ddrud iawn.

## RISGIAU I'R AMGYLCHEDD

Gall olew fod yn wenwynig i blanhigion a bywyd gwyllt ac achosi llygredd difrifol os bydd yn mynd i mewn i ddŵr wyneb (pyllau, afonydd, nentydd, llynnoedd neu'r môr) a dŵr daear (ffynonellau dŵr o dan ddaear). Mae olew'n arnofio ar ddŵr a gall hydoddi mewn dŵr, felly gellir ei gludo ymhell o'r gollyngiad heb arwydd ohono ar y wyneb.

Gall wneud anifeiliaid, adar, pysgod a chreaduriaid sy'n byw mewn neu'n agos at ddŵr wyneb yn sâl iawn. Gall orchuddio eu croen, plu a ffwr a gall eu gwenwyno wrth iddynt geisio glanhau eu hunain. Gall hefyd orchuddio arwyneb y dŵr a thorri'r cyflenwad o ocsigen.

Mae dŵr daear yn ffynhonnell bwysig o ddŵr yfed yng Nghymru. Mae'r dŵr hwn o dan y ddaear ac fe'i defnyddir ar gyfer llawer o gyflenwadau dŵr preifat, yn ogystal â chyflenwadau cyhoeddus mawr.

Defnyddir cyflenwadau dŵr preifat gan bobl mewn ardaloedd gwledig, a gwelir llawer o danciau olew gwresogi mewn ardaloedd gwledig hefyd, lle mae'r prif gyflenwadau nwy yn gyfyngedig.

Mae'n rhaid i gwmnïau dŵr brofi'r dŵr y maent yn ei gyflenwi o dan y gyfraith i sicrhau ei fod yn ddiogel i'w yfed, ond ni all pobl sy'n defnyddio cyflenwad dŵr preifat brofi'r dŵr y maent yn ei yfed yn yr un ffordd, felly mae'n bwysig iawn i chi roi gwybod am unrhyw ollyngiadau olew.

## RISGIAU I EIDDO

Gall olew gwresogi dreiddio i mewn i'r ddaear a lladd planhigion a lawntiau. Gall hefyd dreiddio i mewn i waith brics a sylfeini adeiladau gan ddifrodi neu ddinistrio'r cwrs atal lleithder.

Weithiau, yr unig ateb yw i ailadeiladu'r rhannau o'r adeilad yr effeithir arnynt, a all achosi llawer o darfu a bod yn ddrud iawn.

Os bydd yr olew yn mynd i mewn i ddraeniau, gall deithio yn bell o'r man lle cafodd ei ollwng ac achosi crynodiadau peryglus o anweddau.

Os bydd olew yn mynd i mewn i danciau septig a ffosydd cerrig, gall achosi lefelau peryglus o anwedd yno hefyd. Gallai hefyd ddifrodi strwythur y tanc a halogi'r tir cyfagos a'r man lle mae'r tanc septig yn cael ei wagio.

Weithiau, yr unig ateb yw i wagio draeniau, tanciau septig a ffosydd cerrig a gosod rhai newydd, a all achosi llawer o darfu a bod yn ddrud iawn.

# ATAL GOLLYNGIAD

Mae bob amser yn well atal rhywbeth rhag digwydd na gorfod delio â'r effeithiau.

Mae nifer o gamau y gallwch eu cymryd i wneud yn siŵr bod y risg o ollyngiad olew yn cael ei lleihau. Mae'r camau hyn yn cynnwys y canlynol.

### 1. Cynnal a Chadw

Cymerwch olwg ar eich tanc, falfiau, mesuryddion, pibellau a byndiau yn rheolaidd. Edrychwch am rwd, erydiad, chwyddiadau, craciau, holltau, tyllau, diferion, dŵr ac olew ar y llawr, difrod, gollyngiadau, darnau a gosodiadau rhydd ac arwyddion o ymyrraeth.

Gwnewch yn siŵr bod falfiau a mesuryddion yn cael eu diogelu o'r risg o gael eu taro, eu symud neu eu difrodi.

Unwaith y flwyddyn, trefnwch i dechnegydd OFTEC (y Gymdeithas Dechnegol Llosgi Olew) cofrestredig archwilio a gwasanaethu eich system wres, o'r tanc storio i'r boeler.

### 2. Diogelwch

Mae tanciau storio olew yn cael eu targedu gan ladron a fandaliaid.

Gwnewch yn siŵr bod caead eich tanc yn ffitio'n iawn a chadwch ef wedi'i gloi. Os oes gan eich tanc ran fewnol, cadwch honno wedi'i chloi hefyd a pheidiwch â chadw allweddi'r cloeon wrth y tanc.

### 3. Monitro

Cadwch lygad ar faint o olew rydych chi'n ei ddefnyddio. Gallai cynnydd yn yr olew rydych chi'n ei ddefnyddio neu ostyngiad sydyn yn yr olew yn eich tanc olygu bod gollyngiad.

Gall gollyngiad bach droi'n un difrifol os na fyddwch yn sylwi arno neu os byddwch yn ei anwybyddu am gyfnod o amser.

Mae'n syniad da cadw cofnod yn dangos pryd rydych chi'n archwilio eich tanc, faint o olew sydd wedi'i ddefnyddio, faint o olew a gafodd ei gyflenwi a phryd y cafodd yr olew ei gyflenwi.

Mae tanciau storio olew modern yn cynnwys bwnd[2] neu ail groen a larwm i roi gwybod i chi os yw'r olew wedi gollwng i mewn i'r bwnd. Mae rhai tanciau'n dod gyda dyfais sy'n dangos faint o olew sydd ar ôl yn eich tanc, a gellir plygio hwn i mewn i soced yn y tŷ a'i weithredu o bell.
Mae systemau larwm a dyfeisiau monitro ar gael ar gyfer tanciau hŷn hefyd.

---

[2] Bwnd yw cafn o amgylch y tanc. Os bydd y tanc yn gollwng neu'n cael ei rwygo, mae'r olew'n cael ei gynnwys fel nad yw'n dianc nac yn halogi.

Os nad oes bwnd ar eich tanc, dylech osod tanc modern sydd â bwnd yn ei le. Os na allwch newid eich tanc, argymhellir i chi adeiladu bwnd o amgylch y tanc.

Dylai'r bwnd gael ei adeiladu o frics peirianneg, concrid neu ddeunyddiau eraill nad ydynt yn caniatáu i olew dreiddio drwyddynt ac sy'n gwneud y bwnd mor wrth-ddŵr â phosibl. Dylai'r bwnd fod yn ddigon mawr i ddal 10% yn fwy na chapasiti'r tanc.

Peidiwch â rhoi twll neu ddraen yn wal y bwnd. Bob hyn a hyn efallai y bydd angen i chi gael gwared ar ddŵr glaw o'r tu mewn i'r bwnd, ond mae'n bwysig iawn sicrhau nad oes twll yn y bwnd. Os oes twll a bod yr olew'n gollwng o'r tanc storio, byddai'r olew yn draenio allan drwy'r twll.

Er nad oes yn rhaid gosod bwnd o amgylch eich tanc dan y gyfraith yng Nghymru[3], gallai leihau'r difrod a fyddai'n cael ei achosi pe bai'r olew'n gollwng.

Dylech hefyd wybod ble mae pibellau'r tanc ac i/o ble maent yn rhedeg.

Gwnewch yn siŵr nad yw gwreiddiau coed, gwaith palu, gwaith adeiladu, gwaith garddio neu waith arall sy'n cael ei wneud ar y tir yn difrodi'r pibellau.

## 4. Dosbarthu

Cadwch lygad ar y broses o ddosbarthu olew bob amser, yn arbennig os nad yw'r person sy'n llenwi'r tanc yn gallu gweld y tanc wrth wneud hynny. Dylai'r man lle caiff eich tanc ei lenwi fod o fewn bwnd. Os yw eich tanc yn cael ei lenwi o bell, dylai larwm neu ddyfais gael ei osod i atal y tanc rhag gorlenwi.

I leihau'r perygl o hyn, peidiwch ag archebu mwy o olew nag sydd ei angen ar eich tanc. Edrychwch ar lefel yr olew yn y tanc cyn archebu cyflenwad.

Os oes gan eich tanc fesurydd, gwnewch yn siŵr bod y falf wedi'i chau wrth i'r olew gael ei gyflenwi.

Nid yw olew fel arfer yn cael ei ollwng pan gaiff ei gyflenwi, ond dylai'r gyrrwr fod â phecyn gollyngiadau priodol wrth law. NID yw hylif golchi llestri, clytiau na phapur newydd yn ddigonol i lanhau gollyngiadau.

Ceisiwch gyngor Swyddog Tir Halogedig eich Cyngor lleol os oes olew wedi'i ollwng neu os nad ydych yn siŵr os yw wedi cael ei lanhau.

## 5. Mesuryddion

Mae mesuryddion yn dangos faint o olew sydd ar ôl yn y tanc. Gall y mesuryddion hyn gael eu bwrw'n rhydd a chael eu difrodi, a gan eu bod wedi'u cysylltu â'r tu mewn i'r tanc gall olew ollwng drwyddynt.

Nid yw mesuryddion yn addas i'w defnyddio ar danc sydd heb fwnd.

---

[3] Gallai fod angen gosod bwnd ar rai tanciau masnachol a mawr (>3500 litr) yn ôl y gyfraith. Dylech holi Rheoli Adeiladau a CNC i weld ai dyma'r achos.

Gallwch ddiogelu safle'r mesurydd ar eich tanc a lleihau'r perygl o ollyngiad mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys;

- gwneud yn siŵr bod y mesurydd wedi'i osod yn y bwnd,
- gwneud yn siŵr ei fod wedi'i osod yn gywir fel nad yw'n rhydd ac mewn perygl o gael ei fwrw neu ei ddifrodi,
- gwneud yn siŵr bod falf ar y mesurydd i'w gau'n awtomatig,
- peidio â gadael y falf ar agor,
- dim ond agor y falf pan fyddwch yn edrych i weld faint o olew sydd ar ôl yn y tanc,
- cadw llygad ar y broses o gyflenwi olew a gwneud yn siŵr bod y falf yn cael ei chau ar ôl gorffen.

Os ydych yn gwneud hyn gan ddefnyddio ffon fesur, gwnewch yn siŵr ei bod yn addas ar gyfer y tanc. Dylid ond defnyddio ffon fesur ar y tanc cywir. Ni allwch ddefnyddio ffon fesur eich car neu fan ar eich tanc olew.

## 6. Lleoliad

Mae canllawiau ar le y gallwch roi tanc storio olew a lle na ddylech ei roi, a gallai fod gofynion ychwanegol mewn ardaloedd sy'n agored i lygredd. Dylech gysylltu ag Adran Rheoli Adeiladau eich Cyngor lleol neu Gyfoeth Naturiol Cymru i gael cyngor ar le i roi tanc storio olew.

Ni ddylid storio olew;

- o fewn 50 metr i ffynnon neu dyllau turio,
- o fewn 10 metr i gwrs dŵr fel pwll, afon, nant, ffos neu lyn,
- lle gallai olew lifo i mewn i ddraeniau,
- lle gallai olew lifo dros y ddaear ac i mewn i ddraeniau neu gwrs dŵr,
- lle gallai olew dreiddio i mewn i'r tir,
- lle gallai olew sydd wedi'i ollwng lygru dŵr daear,
- lle na ellir gweld y tanc o'r man llenwi,
- uwchben lefel y to neu lle gallai olew sy'n cael ei ollwng redeg ar hyd gwter ac i mewn i ddraeniau; ac
- mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd (mae gwybodaeth am ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd ar gael gan Gyfoeth Naturiol Cymru).

## 7. Pecynnau Gollyngiadau

Byddai'n syniad da cadw pecyn gollyngiadau ger eich tanc storio olew felly os gwelwch ollyngiad, gallwch ei atal rhag lledaenu ar unwaith.

Gallwch brynu pecynnau gollyngiadau ar-lein neu gan fasnachwyr adeiladu neu arbenigwyr iechyd a diogelwch ac ati... Mae'r cynnwys fel arfer yn amrywio yn ôl maint y gollyngiad y bydd angen i chi ei reoli. Dewiswch becyn gollyngiadau sy'n addas ar gyfer maint y tanc sydd gennych chi.

Mae'r rhan fwyaf o becynnau gollyngiadau'n cynnwys eitemau fel menig rwber, padiau, rhwystrau a gronynnau y gellir eu defnyddio i amsugno'r olew. Mae’n bwysig cofio eu bod ond yn amsugno olew ar y wyneb ac nad ydynt yn cael gwared ar olew o goncrit, tarmac, palmentydd, y tir neu'r dŵr.

Gall bwced neu gynhwysydd mawr o dywod fod yn ddefnyddiol ar gyfer amsugno olew. Dylai fod caead ar y cynhwysydd oherwydd ni fydd tywod gwlyb yn gweithio.

Nid yw sebon neu hylif golchi llestri yn addas, a byddant ond yn lledaenu’r olew. Peidiwch â golchi’r olew i ffordd gyda dŵr oherwydd bydd yn gwaethygu’r broblem. Peidiwch â gadael i olew sydd wedi’i ollwng olchi i ffwrdd yn y glaw a pheidiwch â gadael iddo lifo i lawr draen neu i mewn i lyn neu gwrs dŵr.

Dylech roi padiau, tywod, dillad a gronynnau sydd ag olew arnynt mewn bag a'u gwaredu'n brydlon a chywir. Dylai fod gan gwmnïau 'drwydded cario gwastraff’ a dylent waredu gwastraff mewn cyfleuster trwyddedig priodol. I gael rhagor o gyngor cysylltwch â’ch Awdurdod Lleol.

Mae sticer Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer Tanciau Olew yn ddefnyddiol i atgyfnerthu’r pwyntiau allweddol a drafodir uchod – dyluniwyd y rhain i gael eu rhoi ar eich tanc ac felly byddant yn eich atgoffa’n rheolaidd o’r profion y dylid eu cyflawni a’r hyn i’w wneud os bydd gollyngiad.

## YSWIRIANT

Mae'n bwysig eich bod yn deall yr hyn y mae eich polisi yswiriant yn ei gwmpasu.

Efallai na fydd cwmnïau yswiriant yn talu os na fyddwch wedi sylwi ar ollyngiad am gryn amser, neu wedi'i anwybuddu. Mae'n bwysig i chi brofi'ch tanc a'ch pibellau'n rheolaidd i edrych am ollyngiadau ac i fonitro faint o olew rydych chi'n ei ddefnyddio. Gallai cynnydd yn y swm o olew rydych chi'n ei ddefnyddio neu ostyngiad sydyn yn yr olew yn eich tanc olygu bod gollyngiad.

Gall rhai polisïau yswiriant dalu am waith glanhau ar ôl gollyngiadau a achosir gan danciau wedi'u difrodi, lladron a damweiniau, ond nid yw pob un ohonyn nhw'n gwneud hyn. Dylech ofyn i'ch cwmni yswiriant gynnwys hyn pan fyddwch yn prynu eich polisi.

Mae rhai polisïau yswiriant ond yn cwmpasu'r gost o gyflenwi olew i gymryd lle'r olew a gollwyd drwy ollyngiad.

Mae'n bwysig i'ch polisi yswiriant gwmpasu gollyngiadau olew, lladradau, difrod damweiniol, difrod i'ch eiddo chi ac eiddo eich cymdogion a chostau glanhau. Dylai eich polisi hefyd gwmpasu colledion i chi ac eraill, megis cyflenwadau dŵr preifat/ffynhonnau ac eich eiddo a thir cyfagos. Os nad yw eich polisi yswiriant yn cwmpasu hyn dylech ei newid.

Os oes gollyngiad ac nad ydych wedi eich yswirio efallai y bydd rhaid i chi dalu costau atgyweirio, costau am unrhyw ddifrod a achoswyd a chostau glanhau.

Eich cyfrifoldeb chi yw cysylltu â'ch cwmni yswiriant.

## GOLLYNGIADAU OLEW - Y GYFRAITH

Os yw eich olew yn gollwng a'i fod yn halogi tir, dŵr daear neu ddŵr wyneb, neu ei fod yn achosi perygl annerbyniol i iechyd dynol neu'r amgylchedd neu'n difrodi eiddo, gall y Cyngor neu Gyfoeth Naturiol Cymru ei gwneud yn ofynnol i chi ei lanhau.

Gellid cymryd camau ffurfiol yn eich erbyn, gan eich gorfodi i'w lanhau, yn unol â

- Rhan 2A Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990
- Adran 161 Deddf Adnoddau Dŵr 1991

Os na fyddwch yn glanhau olew fel sy'n ofynnol, gallech gael eich cymryd i'r Llys. Rydych chi hefyd yn peryglu gwerth eich eiddo ac eiddo eich cymdogion, a gallech gael problemau'n gwerthu eich tŷ.

Mae'r Cyngor yn cael ymholiadau'n rheolaidd am eiddo sydd ar werth ac, os nad ydych wedi glanhau gollyngiad olew, ni fydd y Cyngor yn gallu dweud wrth y darpar brynwr neu gyfreithiwr eich bod wedi delio â'r halogiad.

Os ydych yn gosod tanc olew newydd fel rhan o system gwres canolog a bwerir gan olew neu fel tanwydd ar gyfer ffwrn, rhaid i chi wneud yn siŵr ei fod yn cydymffurfio â Rheoliadau Adeiladu 2010. Mae gan Adran Rheoli Adeiladau eich Cyngor lleol fwy o wybodaeth am hyn.

Os ydych yn ystyried gosod tanc storio olew newydd, a bod y lleoliad o fewn neu ger tir neu eiddo mewn Parc Cenedlaethol, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, Ardal Gadwraeth neu Safle Treftadaeth y Byd, dylech gysylltu ag Adran Gynllunio eich Cyngor lleol i gael cyngor oherwydd efallai y bydd angen caniatâd cynllunio arnoch.

## GOSOD TANC NEWYDD A CHAEL GWARED AR HEN DANC

Os ydych yn cael gwared ar hen danc dylech osod tanc newydd â chroen/bwnd dwbl a larwm i'ch rhybuddio os bydd olew yn gollwng o'r tanc i mewn i'r bwnd.

Mae llawer o weithgynhyrchwyr, cyflenwyr, dyluniadau a nodweddion i chi ddewis ohonynt ac efallai na fydd tanc sy'n addas ar gyfer un eiddo yn addas ar gyfer un arall. Ni fydd un tanc yn addas i bawb.

Nid argymhellir i chi wneud gwaith DIY ar eich tanc storio olew, eich pibellau na'ch system gwres canolog oherwydd os byddwch yn gwneud camgymeriad

gallech achosi gollyngiad. Gellid effeithio ar eich polisi yswiriant ac efallai na fydd eich cwmni yswiriant yn talu am unrhyw atgyweiriadau neu waith glanhau.

Cyn i unrhyw waith gael ei gwblhau i osod tanc newydd, mae Rheoliadau Adeiladu'n ei gwneud yn ofynnol i chi roi gwybod i Arolygydd Adeiladau Adran Rheoli Adeiladau eich Awdurdod Lleol eich bod yn bwriadu gosod tanc newydd.

Dylech hefyd roi gwybod iddo os ydych yn bwriadu gwneud y canlynol:

- Gosod pibellau
- Gosod neu ddechrau defnyddio offer a bwerir gan olew, megis ffwrn neu foeler
- Gosod, addasu neu ddechrau defnyddio system gwres canolog
- Gosod neu addasu ffliw, leinin ffliw neu simdde
- Gosod tanc neu system storio dŵr poeth

Gall fod yn ddefnyddiol (ac arbed amser ac arian) trafod eich cynlluniau ag Arolygydd Adeiladau cyn penderfynu beth i'w prynu, pwy i'w benodi a pha waith i'w wneud.

Dylai cwmni gwastraff trwyddedig ddraenio hen danc o unrhyw olew gweddilliol a slwtsh a allai fod ynddo. Dylai cwmni gwastraff trwyddedig gymryd yr olew, y slwtsh a'r tanc a'u gwaredu.

Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau eich bod yn rhoi eich gwastraff i gwmni trwyddedig addas a chadw'r gwaith papur a'r derbynebau (a elwir yn Nodiadau Trosglwyddo Gwastraff) y mae'n rhaid i'r cwmni eu rhoi i chi. Rhaid i chi eu cadw am 4 blynedd.

Gallwch gael cyngor ar waredu gwastraff a chadarnhau bod y cwmni rydych yn bwriadu ei benodi wedi'i drwyddedu ar wefan Asiantaeth yr Amgylchedd neu drwy gysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru.

## BETH I'W WNEUD OS GWELWCH OLLYNGIAD

Os byddwch yn dod ar draws gollyngiad, mae nifer o gamau y dylech eu cymryd i sicrhau eich bod yn delio ag ef yn brydlon a chywir ac i atal y sefyllfa rhag gwaethygu.

Mae'r camau canlynol yn esbonio'r hyn y dylech ei wneud, pwy y dylech roi gwybod iddo a phwy all eich helpu i ddelio â'r sefyllfa.

- Gweithredwch yn gyflym.
- Rhwystrwch y gollyngiad wrth y ffynhonnell ar unwaith.
- Rhowch fwced neu gynhwysydd addas o dan unrhyw olew sy'n gollwng. Peidiwch â defnyddio cynwysyddion sy'n cael eu defnyddio i storio bwyd i bobl neu anifeiliaid. Bydd yn rhaid cael gwared ar gynwysyddion sydd wedi dal olew.

- Rhwystrwch olew sydd wedi'i ollwng rhag lledaenu, yn enwedig i mewn i ddraeniau a chyrsiau dŵr. Defnyddiwch dywod sych, pecyn gollyngiadau neu ddeunydd amsugnol arall.
- Peidiwch â chael olew ar eich croen a'ch dillad.
- Golchwch eich dwylo a pheidiwch â smygu, bwyta nac yfed pan fyddwch mewn cysylltiad ag olew neu ar ôl i chi fod mewn cysylltiad ag olew.
- Cadwch blant ac anifeiliaid anwes i ffwrdd o'r ardal yr effeithir arni.
- Trefnwch i unrhyw danwydd sy'n weddill ac sy'n debygol o ollwng o'r tanc gael ei symud gan gyflenwr tanwydd neu rywun sydd â thrwydded briodol i'w gymryd ymaith. Peidiwch â cheisio gwneud hyn eich hun, a pheidiwch â storio olew mewn adeilad, sied neu gerbyd.
- Os effeithir ar eich cyflenwad dŵr neu bibellau dŵr, peidiwch ag yfed y dŵr a chysylltwch â'ch cyflenwr dŵr, er enghraifft Dŵr Cymru.
- Peidiwch â cheisio defnyddio dŵr i chwistrellu'r olew i ffwrdd.
- Peidiwch ag ychwanegu hylifau golchi na sebon.
- Cysylltwch â'ch Cyngor lleol a gofynnwch am y Swyddog Tir Halogedig.
- Hefyd, cysylltwch â Chyfoeth Naturiol Cymru ar eu llinell 24 awr 0800 80 70 60.
- Rhowch wybod i'ch cwmni yswiriant a gwnewch hawliad am y gost o atgyweirio a glanhau. Mae'n bosibl y bydd gan gwmnïau yswiriant gontractwyr penodol y byddant am eu defnyddio i lanhau gollyngiadau.
- Os bydd olew yn mynd i mewn i ddraeniau neu o dan adeilad, rhowch wybod i'r Gwasanaeth Tân.
- Cadwch gofnod o'r camau rydych chi wedi'u cymryd.

# Pwy i gysylltu ag ef

Eich Cyngor Lleol yw:

| |
|---|
| Rachel Kershaw<br>Arolygydd Tir Halogedig<br>Cyngor Sir Penfro<br>Neuadd y Sir<br>Hwlffordd<br>Sir Benfro<br>SA61 1TP<br><br>pollution.control@pembrokeshire.gov.uk<br>Ffon: 01437 776532<br>Ymholiadau cyffredinol: 01437 764551 |

**Cyfoeth Naturiol Cymru**

www.naturalresourceswales.gov.uk
enquiries@naturalresourcewales.gov.uk
Ymholiadau cyffredinol: 0300 065 3000 (Llun-Gwe 8am-6pm)
Llinell ddigwyddiadau: 0800 807060 (rhadffon 24 awr)

**Dŵr Cymru**

www.dwrcymru.com
Gwasanaethau dŵr ac argyfyngau: 0800 052 0130

# Ffynonellau o wybodaeth bellach

Canllaw Atal Llygredd 2 (PPG2) Asiantaeth yr Amgylchedd, Awst 2011 - Tanciau storio olew ar y ddaear (canllaw manwl 28 tudalen i berchnogion a defnyddwyr tanciau sydd wedi'i lunio'n benodol ar gyfer storfeydd olew domestig neu storfeydd olew masnachol bach neu ganolig). Mae'n cynnig mwy o fanylion am wahanol fathau o danciau, adeiladu tanciau (a rhannau cysylltedig), eu gosod a'u cynnal, deddfwriaeth berthnasol a ffynonellau eraill o wybodaeth.

(www.environment-agency.gov.uk)

Hefyd, mae gan Asiantaeth yr Amgylchedd daflen sy'n dwyn y teitl 'Oil Care - Looking after your heating oil in the south east' sy'n cynnig canllawiau pellach tebyg i'r ddogfen hon, ond sy'n cynnwys enghreifftiau penodol o ollyngiadau ac effeithiau'r gollyngiadau hynny.

## Geirfa

| | |
|---|---|
| Twll turio | Twll cul fertigol wedi'i ddrilio yn y ddaear (yn yr achos hwn, fe'i defnyddir i echdynnu dŵr daear fel cyflenwad dŵr preifat). |
| Bwnd | Cafn mawr wedi'i selio sydd wedi'i adeiladu o amgylch tanc i ddal gollyngiadau o'r tanc pe bai'r tanc yn methu. Dylai bwnd allu dalu 10% yn fwy na chyfaint y tanc. Yn ogystal â phrofion cynnal a chadw, gallai fod angen gwagio dŵr glaw o'r bwnd o bryd i'w gilydd. |
| Dŵr daear | Dŵr sydd o dan y ddaear, wedi'i ddal mewn pridd bas neu graig ddofn. Mae dŵr daear yn llifo o dan y ddaear a gall gyflenwi dŵr i ffynhonnau ac afonydd. Gellir ei echdynnu fel dŵr yfed drwy ddrilio twll turio. |
| Tanc septig | Tanc bach fel arfer, wedi'i balu i mewn i'r ddaear, sy'n derbyn ac yn trin carthion gyda bacteria. |
| Ffos gerrig | Pydew mawr wedi'i balu i mewn i'r ddaear a'i lenwi â deunydd gronynnol, sy'n galluogi dŵr glaw glân i ddraenio yn ôl i'r ddaear. |
| Pecyn gollyngiadau | Pecyn yn cynnwys offer, deunydd amsugnol a chyfarwyddiadau ar lanhau gollyngiadau o hylifau neu ddeunyddiau a allai fod yn beryglus. Mae pecynnau gollyngiadau wedi'u teilwra i'r math o ollyngiad a allai ddigwydd. Dylent fod ar gael yn hawdd pe bai gollyngiad. |

**Mae'r ddogfen hon wedi'i haddasu o ddogfen a baratowyd gan Gyngor Sir y Fflint.**